

Tir a Môr

Cylchlythyr Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion
Cardigan Bay Special Area of Conservation Newsletter

Rhif
No 9

Haf 2005

Summer 2005



It is official

Cardigan Bay is amongst the 8 marine areas in Wales that have formally been designated as Special Area of Conservation (SAC) under the European Habitats Directive. They therefore no longer have to be referred to as candidate sites (cSAC).

Mae'n swyddogol

Mae Bae Ceredigion yn un o 8 o ardaloedd morol yng Nghymru sydd wedi eu dynodi'n ffurfiol yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop. Felly nid yw'n ddarpar safle mwyach (cSAC).

© Janet Baxter

Y DARLUN mawr

The bigger PICTURE


Gwyddoch fod Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC) Bae Ceredigion yn amgylchedd morol heb ei ail a'i bod yn cael ei diogelu oherwydd y dolffiniaid trwynbwl sydd yno ynghyd â morloi llwyd yr lwerydd, lamprai'r môr a'r afon a chynefinoedd sydd o bwys Ewropeaidd megis traethellau, ogofâu'r môr a riffiau. Ond beth yn union yw SAC a sawl un sydd yn Ewrop a pham?

Yn y rhifyn hwn o Tir a Môr byddwn yn canolbwyntio ar arwyddocâd yr ardaloedd cadwraeth arbennig a'r hyn sy'n digwydd o ran diogelu bywyd gwylt ar draws Ewrop. Byddwn yn eich hysbysu chi hefyd am ddigwyddiadau diweddaraf yr ardal gadwraeth ac am y gweithgareddau a'r digwyddiadau cyffrous y gallwch chi gymryd rhan ynddynt dros yr haf. Ond yn gyntaf, dyma'r newyddion mawr:

Most of you will know that Cardigan Bay Special Area of Conservation (SAC) is an outstanding marine environment, protected because of the unique presence of bottlenose dolphins as well as Atlantic grey seals, river and sea lampreys and habitats of European importance such as sandbanks, sea caves and reefs. But what exactly is an SAC and how many are there in Europe and why?

In this issue of Tir a Môr we will be focussing on the significance of SACs and what is happening in terms of wildlife conservation across all of Europe. We will also be informing you on the latest happenings within the SAC and let you know about the exiting activities and events you can take part in this summer.





Bioamrywiaeth Ewrop

Yr hyn sydd gennym a'r hyn y gallwn ei golli

Mae'r Undeb Ewropeaidd a'r 25 o wladwriaethau sy'n aelodau ohono'n ymestyn o Gylch y Gogledd hyd at ddyfroedd cynnes Môr y Canoldir yn y de. O donnau cryfion arfordir Môr yr Iwerydd hyd at wastatiroedd Panonia, mae'n cynnwys cynefinoedd a fflora a ffawna hynod amrywiol. Mae ein treftadaeth naturiol yn cynnwys miloedd ar filoedd o fathau o gynefinoedd, 150 o rywogaethau mamaliaid, 520 o rywogaethau adar, 180 o rywogaethau ymlusgiaid ac amffibiaid, 150 o rywogaethau pysgod, 10 000 o rywogaethau planhigion ac o leiaf 100 000 o rywogaethau creaduriaid di-asgwrn cefn.

O gymharu â rhannau eraill o'r byd mae'r niferoedd hyn yn gymharol fach. Ewrop yw'r cyfandir mwyaf trefol ac ar y cyd ag Asia, Ewrop yw'r cyfandir sydd â'r boblogaeth ddwysaf yn y byd. Mae'r ffactorau hyn wedi bod yn ddylanwadol.

Er bod Gwladwriaethau'r Undeb wedi gwella'u polisiau cadwraeth mae bioamrywiaeth fondigrybyll yr Undeb Ewropeaidd – sy'n hanfodol i gynnal bywyd ar y blaned – yn dal mewn perygl mawr. Tros y blynyddoedd mae cynllunio gwael, defnydd tir gwastraffus a dulliau ffermio dwys wedi arwain at ddirywiad llawer o gynefinoedd naturiol megis gwlypdroedd, y mae llawer o rywogaethau gwylt yn ddiabyddol arnynt.

Yn Ewrop mae 42% o'r mamaliaid cynhenid 15% o'r adar, 45% o'r gloynnod byw, 30% o'r amffibiaid, 45% o'r ymlusgiaid a 52% o'r pysgod dw'r croyw dan fygythiad. Yng Ngogledd a Goglewin Ewrop collwyd tua 60% o'r gwlypdroedd. Mae perygl i ddau draean y coed yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae tanau mewn coedwigoedd yn y de'n broblem o hyd.

A wyddoch chi...

Mae'r gwladwriaethau newydd sydd wedi ymaelodi (Y Weriniaeth Siec, Estonia, Ciprys, Latfia, Lithwania, Hwngari, Malta, Gwlad Pwyl, Slofenia a Slofacia) â'r Undeb Ewropeaidd wedi ychwanegu 58% ar ei arwynebedd! Felly nid yw'n syndod bod yr ehangu wedi arwain at ddynodi rhanbarth bioddaearyddol newydd, sef y rhanbarth Panonaidd, ynghyd ag ychwanegu 173 o rywogaethau newydd a 20 o fathau o gynefinoedd at restr y nodweddion i'w diogelu.

UK Wolf Conservation Trust - www.ukwolf.org Nikkie Windsor (Luncea)

Europe's biodiversity

What we have and might lose

The European Union, with its 25 Member States, stretches from the Arctic Circle in the North to the warm Mediterranean waters in the South. From the wave-lashed Atlantic coast to the snow-capped Pannonian steppes, it includes a vast range of natural habitats and a great diversity of flora and fauna. Our natural heritage includes several thousand types of habitats, 150 species of mammals, 520 species of birds, 180 species of reptiles and amphibians, 150 species of fish, 10 000 plant species and at least 100 000 species of invertebrate.

Yet, in comparison with other regions in the world, these numbers are relatively small. Europe is the most urbanised and, together with Asia, the most densely populated continent in the world. These factors have exacted a toll.

Despite the improved conservation policies introduced in the Member States, the EU's precious 'biodiversity' - essential for supporting life on this planet - continues to be under serious threat. Poor planning, wasteful land-use and intensive farming methods have resulted over the years in the destruction of many natural habitats such as wetlands, which many wild species depend upon for their survival.

In Europe, 42% of our native mammals 15% of birds, 45% of butterflies, 30% of amphibians, 45% of reptiles and 52% of freshwater fish are threatened. In North and Western Europe, some 60% of wetlands have been lost. Two-thirds of trees in the EU are under stress, while forest fires in the south continue to pose a problem.

Did you know that...


The addition of 10 new member states (Czech Republic, Estonia, Cyprus, Latvia, Lithuania, Hungary, Malta, Poland, Slovenia and Slovakia) to the European Union has meant a 58% increase in its land area! It is not therefore surprising if the enlargement has resulted in the identification of a whole new biogeographic region, named the Pannonian region, as well as the addition of nothing less than 173 species and 20 new habitat types to the list of protected features.





Amrywiaeth fiolegol Ewrop

Europe divided in its biological diversity



Mae'r map uchod yn dangos yr un ar ddeg rhanbarth bio-ddaearyddol a nodwyd yn Ewrop trwy'r Gyfarwydded Cynefinoedd. Mae rhestr wedi eu llunio ar gyfer pob ardal sy'n nodi'r ardaloedd a'r rhywogaethau pwysicaf y mae angen eu diogelu. O'r herwydd bu'n bosib cael gorolwg ar fioamrywiaeth Ewrop a mynd ati mewn modd resymegol i ddewis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Ar hyn o bryd mae 19 516 o safleoedd wedi eu cynnig i'w diogelu yn yr Undeb Ewropeaidd.

The above map shows the eleven bio-geographical regions identified in Europe through the Habitats Directive. For each region a list of the most important areas and species needing protection has been drawn up. This has made it possible to gain an overview of Europe's biodiversity and choose SACs (Special Areas of Conservation) in a logical manner. Currently 19 516 sites have been put forward for protection within the European Union.

Tabl Cryno o'r Safleoedd Ewropeaidd sydd o Ddiddordeb i'r Gymuned (SCI)

Golyga SCI safle a gynigiwyd gan wladwriaethau sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer cael eu dynodi'n SAC a'u diogelu dan Gyfarwydded Cynefinoedd Ewrop.

Cyfanswm SCI yn yr UE	19516
Arwynebedd cyfan yr UE	394426000 ha
Arwynebedd Cyfan yr SCI yn yr UE	52295564 ha
Arwynebedd Cyfan SCI ar y tir yn yr UE	45774433 ha
% arwynebedd yr UE a ddynodwyd yn SCI ar dir	11.61 %
Nifer yr SCI y mae rhannau ohont yn forol	1250
Arwynebedd cyfan SCI morol yn yr UE	6521131 ha


Ffynhonnell ddata: Gwefan amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd
http://europa.eu.int/comm/environment/nature/nature_conservation/useful_info/barometer/index_en.htm

European Sites of Community Importance (SCI) Summary table

A SCI is a site which has been put forward by European Union (EU) member states to receive SAC designation and hence protection under the European Habitats directive

Total number of SCI in the EU	19516
EU total Area	394426000 ha
Total Area of SCI in the EU	52295564 ha
Total area of terrestrial SCI in the EU	45774433 ha
% area of EU designated as terrestrial SCI	11.61 %
No. of SCI in which a marine part is noted	1250
Total area of Marine SCI in the EU	6521131 ha

Data source: Environment website of the European Union
http://europa.eu.int/comm/environment/nature/nature_conservation/useful_info/barometer/index_en.htm





Rhanbarth yr Iwerydd

The Atlantic Region

Saif y cyfan o'r Deyrnas Unedig o fewn rhanbarth yr Iwerydd. Er nad yw ond yn cynnwys 10% o dir Ewrop mae rhanbarth yr Iwerydd yn cynnwys 50% o arfordir Ewrop ac nid oes unman ynddo yn bellach na 300km o'r môr. Mae'r rhan fwyaf o dir y rhanbarth yn dir isel, gwastad neu donnog er bod rhai ardaloedd mynyddig hefyd (e.e. Ucheldir yr Alban, mynyddoedd y Cambrian) ac mae hynny'n cyfoethogi ei bioamrywiaeth. Hefyd, mae llawer o brif afonydd Ewrop yn llifo trwy'r rhanbarth ac mae yno lawer o lynnoedd dŵr croyw. Dim ond yn Iwerddon a gogledd Prydain y ceir llynnoedd naturiol mawrion, y rhan fwyaf ohonynt ar ffurf ffordir hir.

The UK is entirely situated within the Atlantic region. Covering only 10% of Europe's land area, the Atlantic region includes some 50% of Europe's coastline and nowhere is more than 300 km from the coast. Most land area within the region is composed of low lying, flat or undulating landscapes but there are some mountainous regions (e.g. Scottish Highlands, Cambrian mountains) which greatly enrich its biodiversity. Further, many of Europe's major rivers flow through the region and freshwater lakes are widely distributed throughout. Ireland and northern Britain are however the only ones to have large natural lakes, mostly as long fjord like lochs.

Y rhai Iwcus ar y rhestr

Ar restr y rhywogaethau y tybir bod angen diogelu eu safleoedd yn rhanbarth yr Iwerydd mae cymaint ag 88 o rywogaethau o anifeiliaid, 34 o rywogaethau o blanhigion a 117 o gynefinoedd. Dyma rai:

- 1 **Coedwigoedd coed yw Môr y Canoldir** *Taxus baccata* 1
- 2 **Corsydd asid megis gorgorsydd** a wneir o fwsog *Sphagnum*
- 3 **Eog yr Iwerydd** *Salmo salar*
- 4 **Y blaidd** *Canis lupus*
- 5 **Morlo llwyd yr Iwerydd** *Halychoerus grypus* 2
- 6 **Y dyfrgi** *Lutra lutra*



The list of species considered to be in need of site protection within the Atlantic region counts as many as 88 animal species, 34 plant species and 117 habitats. These include:

- 1 **Mediterranean Yew**
Taxus baccata woods
- 2 **Acid bogs such as blanket bogs** made up of *Sphagnum* moss
- 3 **The Atlantic salmon**
Salmo salar
- 4 **The European grey wolf**
Canis lupus
- 5 **The Atlantic grey seal**
Halychoerus grypus
- 6 **The otter** *Lutra lutra*

Yew: Tree Register of Ireland project
Wolf: UK Wolf Conservation Trust - www.ukwolf.org Dominic Earl (Alba)
Otter: Kate Williamson
Salmon: Environment Agency
Grey seal: Mick Baines





Gwaith ar y gweill

Y Diweddaraf

LATEST NEWS

Work in progress

Yn yr Haf yma agorir "Lle Cychod Bae Ceredigion", ystafell arddangos newydd sbon a gynlluniwyd yn arbennig i roi gwybodaeth i fordwywyr yr Ardal Gadwraeth Arbennig yngly^n â lle y gallwch chi weld bywyd gwyllt a'r ffordd orau o ymwneud ag ef. Bydd yn wal harbwr Ceinewydd a bydd arddangosfeydd rhyngweithiol ac arloesol y Lle Cychod at ddant pawb.

This summer we will be working on the opening of the "Cardigan Bay Boat Place", a brand new display room especially devised to provide those of you who will be sailing the SAC waters with information on what and where to look for wildlife and how to best approach it. Located on the New Quay harbour wall, the Boat Place's interactive and innovative displays will make this a must visit for everybody in the area.

Adolygu'r cynllun rheoli

Ers ychwanegu 6 o nodweddion newydd at Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion yn 2001 mae adolygiad o'r cynllun rheoli ar waith i sicrhau bod y cynllun yn gwarchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn yn ddigonol. Yn anffodus bu oedi cyn cyhoeddi Rheoliad 33, a oedd i fod i gael ei gyhoeddi yn 2004 ac a ddisgwyllir bellach ym mis Gorffennaf 2005. Golyga hyn fod yr adolygiad ar y cynllun rheoli wedi dod i stop am y tro. Bellach mewn cyfarfod ym mis Mai 2005 mae Grw^p yr Awdurdodau Perthnasol wedi rhoi sylw i'r materion a oedd yn peri'r oedi gan lunio amserlen newydd ar gyfer yr adolygiad.

The management plan review

Since the addition of 6 new features to the Cardigan Bay SAC in 2001, a review of the management plan is being undertaken to make sure the plan provides adequate protection for these additional species and habitats. Unfortunately, a delay in the issuing of Regulation 33, originally due in 2004 and now due in July 2005, has brought the process to a temporary halt. A Relevant Authorities meeting in May 2005 has now addressed issues causing this delay and put together a new schedule for the review. The draft management plan is scheduled to be ready for consultation by the end of May 2006. This means the next Liaison Meeting for the Cardigan Bay SAC has preliminarily been scheduled for July 2006. For any queries regarding the SAC and the management plan please don't hesitate to contact the Cardigan Bay SAC Officer Annalisa Bianchessi (Ph. 01545 572139)

Bydd y cynllun rheoli drafft yn barod i ymgynghori yn ei gylch ddiwedd Mai 2006. Golyga hyn y cynhelir cyfarfod nesaf Grw^p Cyswllt Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ym mis Gorffennaf 2006. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr Ardal Gadwraeth a'r cynllun rheoli cysylltwch â Swyddog Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion Annalisa Bianchessi (Ffôn 01545 572139)

e-mail: annalisab@ceredigion.gov.uk

e-bost: annalisab@ceredigion.gov.uk



© Janet Baxter





Lamprai'r môr yn harbwr Aberaeron

Y Diweddaraf

LATEST NEWS

Rare sea lamprey sighting in Aberaeron harbour

Rhywogaeth hynafol yn silio
unwaith eto

Fore dydd Mercher y 4ydd o Fai darganfuwyd dwy lamprai'r môr yn harbwr Aberaeron. Dyma arwydd da gan ei fod yn dangos bod y rhywogaeth yma nad yw byth braidd yn cael ei weld ac sydd yn rhywogaeth a gaiff ei diogelu'n dal i ffynnu yn yr ardal. Darganfuwyd y gyntaf yn farw gan yr harbwrfeistr Nigel Wells. Gwelodd Nigel Petts, swyddog Coed Cymru'r llall, yn nofio yn un o'r pyllau sydd yn cronni yn yr harbwr pan fydd y llanw'n isel. Roedd o liw eurfrown bron a bod yn oren a smotiau du ar ei chefn sy'n nodweddiadol o oedolion adeg silio. Nid yw'r ffaith bod un wedi marw'n achos i bryderu, gan fod y lamprai'n adnabyddus am farw ar ôl dodwy wyau.

Nid ydym yn gwybod a lwyddodd y ddwy lamprai i epilio. Mae Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion wedi ei nodi'n un o'r prif ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth ar gyfer y rhywogaeth, yn bennaf am fod y lamprai'n dod yma ar ei ffordd i silio yn Afon Teifi.

Gan na wyddom ryw lawer am ddsbarthiad lamprai'r afon yn yr ardal, byddai unrhyw adroddiadau gan rai sy'n gweld lamprai'n ddefnyddiol iawn i'n helpu i ddeall eu hanghenion cadwraethol. Felly os ydych yn digwydd gweld lamprai yn yr afon neu'n y môr, gallwch helpu i'w diogelu drwy roi gwybod i Swyddog yr Ardal Gadwraeth Annalisa Bianchessi (Ffôn: 01545 572139), neu ebost: annalisab@ceredigion.gov.uk.



Sea lamprey spotted in Aberaeron harbour.



The sucker-like mouth of an adult sea lamprey showing concentric rows of strong rasping teeth.



Lamprai'r môr yn harbwr Aberaeron

Mae ceg lamprai'r môr yn ei llawn dwf yn ymdebygu i sugnydd gyda rhesi o ddannedd cryfion craffog consentrig.

As ancient species sets out to
spawn once again

On the morning of the 4th of May two sea lampreys were found in Aberaeron harbour. This is a good sign as it is an indication that this rarely seen and protected species is still thriving in the area. The first one was found dead by the Aberaeron harbourmaster Nigel Wells. The second one, which had the golden brown almost orange colouring and black mottled back typical of adults at spawning time, was spotted by Coed Cymru Officer Nigel Petts as it was swimming in one of the pools that form in the Harbour at low tide. The death of one of them need not be a signal of alarm, as it is known that sea lampreys die after they have laid their eggs. Whether the two lampreys succeeded in their attempt to reproduce remains however for us to speculate. The Cardigan Bay SAC has been identified as one of the sites of conservation importance for the species, mainly because it acts as a migration ground for lampreys on their way to spawn in the Teifi River. As still little is

known about the distribution of lamprey in the area, any reporting of lamprey sightings can be useful in understanding their conservation needs. So if you happen to spot a lamprey both in a river or at sea, you can contribute towards its protection by informing the SAC Officer Annalisa Bianchessi (Ph. 01545 572139), e-mail: annalisab@ceredigion.gov.uk.



Ymwybyddiaeth ar gynnydd am y Bae

2005 – bydd yr Ardal Gadwraeth Arbennig ar daith eto!

Yn dilyn llwyddiant y “Daith” y llynedd rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Sioe Ffordd Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion yn parhau yn 2005 (gweler y rhestr yn y tabl isod). Mae gan y Sioe rywbeth i'w gynnig i bawb o bob oed, ac arddangosfa deithiol o'r ardal gadwraeth arbennig yw hi a fydd yn eich cyflwyno chi i rai o greaduriaid rhyfeddaf yr ardal. Cewch weld yr hyn sy'n gwneud amgylchedd y môr yn yr ardal hon yn lle mor arbennig ac fe gewch ddysgu sut mae ei fwynhau i'r eithaf. Mae hefyd yn gyfle i ddod i gwrdd â swyddog yr ardal gadwraeth arbennig a gofyn cwestiynau am yr ardal a'r modd y caiff ei rheoli.

Troi sbwriel yn fywyd gwyllt

Ymhlith pigion Diwrnod y Môr ar fandstand Aberystwyth ar 11 Mehefin oedd y cerfluniau a wnaed o sbwriel. Bu'r gweithdy a gynhaliwyd dan adain yr artist lleol Pod yn fodd i bobl leol ac ymwelwyr gynhyrchu cyfres o gerfluniau wedi eu lliwio a'u peintio'n hyfryd a edrychai'n hynod realistig. Ymhlith yr anifeiliaid a wnaed roedd: dolffin trwynbwl, gwalch y penwaig, mulfran, brân goesgoch a chath fôr. Yn ystod diwrnod y môr lansiodd Wythnos Fioamrywiaeth gyntaf Ceredigion. Fe'i trefnwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion ac yn ystod yr wythnos daeth cannoedd o bobl draw i gael gwelw golwg ar fyd natur gan ymweld â rhai o'r llefydd mwyaf godidog yn yr ardal a chymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau ymarferol. Cynhaliwyd cwis bioamrywiaeth ar Radio Ceredigion yn ystod yr wythnos a fu'n gyfle i ennill gwobrau ar ffurf teithiau ar hyd yr arfordir. Enillwyd y gwobrau cyntaf, ail a thrydydd gan Avril Davil o Gilgerran, Lisa Jones o Dalgarreg a Mrs B. George o Aberystwyth.



Mae'n swyddogol

Ar 7 Rhagfyr 2004, bu i'r Comisiwn Ewropeaidd fabwysiadu rhestr y Deyrnas Unedig o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Yna bu i Carwyn Jones, y Gweinidog Amgylchedd yn Llywodraeth y Cynulliad ddyodi'r 90 safle Cymreig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn ffurfiol ar 13 Rhagfyr 2004. Y cam ffurfiol nesaf fydd nodi'r ardaloedd Cymreig ar "Gofrestr Safleoedd Ewropeaidd" Llywodraeth y Cynulliad. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud bydd copi o'r Gofrestr ar gael ar gyfer ymgyngori cyhoeddus yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru. Cewch wybodaeth fanwl am bob Ardal Gadwraeth Arbennig ar wefannau'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol y Deyrnas Unedig.

It is official

On 7 December 2004, the European Commission formally adopted the UK list of Special Areas of Conservation. Cardwyn Jones, the Environment Minister in the Welsh Assembly Government, then formally designated the 90 Welsh sites on this list as SACs on December 13th 2004. The next formal stage for the Welsh areas is to be entered in the Welsh Assembly Government's "European Sites Register". Once this has been done, a copy of the Register will be available for public consultation at the Countryside Council for Wales. Detailed information on each SAC can be viewed on the Joint Nature Conservation Committee and the UK Marine Special Areas of Conservation websites.



Raising awareness in the Bay

SAC on the road again

After the success of last years "Tour" we are proud to announce that the Cardigan Bay SAC Roadshow will be continuing in 2005 (see table at the back for list of venues). With something for all ages, the Roadshow is a travelling exhibition on the SAC that will introduce you to some of the most extraordinary inhabitants of the area. You will be able to find out what makes this marine environment so very special and how to make the most of enjoying it. It is also an opportunity to come and meet the SAC Officer and to ask any questions you might have about the area and its management.

Turning rubbish into wildlife

One of the highlights of the Marine Day at the Aberystwyth bandstand, which took place on the 11th of June, was the making of wildlife sculptures out of rubbish. The workshop lead by local artist Pod enabled locals and visitors to produce a series of wonderfully coloured and realistically painted sculptures. Amongst the animals made were: a bottlenose dolphin, a razorbill, a cormorant, a cough and a skate. The marine day was the launching event of Ceredigion's first Biodiversity Week. Organised by Ceredigion's Biodiversity Partnership the week brought hundreds of people to have a closer look at nature as they visited some of the area's most stunning places and took part in the many hands-on events. A biodiversity quiz on Radio Ceredigion gave the opportunity to win some exciting trips along the coast. Proud winners of the first, second and third prize are Avril Davil from Cilgerran, Lisa Jones from Talgarreg and Mrs B. George from Aberystwyth.



Sioe Ffordd Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion 2005

Cardigan Bay SAC Roadshow 2005

Dydd Sadwrn 9 Gorffennaf**SIOE DYFFFRYN TEIFI**

Ble: Brongest,
Castellnewydd Emlyn
Amser: 10.00am – 5.00pm
Cyswllt: Mrs Louise Davies
01239 710151 dydd
01239 858958 nos
Costau: Oedolion £4, plant £3,
(dan 16 oed), parcio £2

Dydd Sul 10 Gorffennaf**GWYL BWYD MÔR BAE
CEREDIGION**

Ble: Harbwr Aberaeron
Amser: 12.00am – 5.00pm
Costau: Am ddim

Dydd Mercher 27 Gorffennaf**SIOE AMAETHYDDOL
ABERTEIFI**

Ble: Caeau Briscwm, A487
l'r gogledd i Aberteifi
Amser: 9.00am – 5:30pm
Cyswllt: Gill Jones 01239
615438
Costau: £5 oedolion, £3
pensiynwyr, £1 plant
(<15 oed)

Dydd Llun 1 Awst**DIWRNOD Y TRAETH**

Ble: Traeth Parrog
Trefdraeth
Amser: 10.00am – 3.00pm
Cyswllt: Richard Vaun
07977034985
Costau: Am ddim

Dydd Iau 4 Awst**CARNIFAL ABER-PORTH**

Ble: Aber-porth
Amser: 2.00 – 4.30pm
Cyswllt: Jan Tucker
01239 810387
Costau: Yn falch o gael rhodd at
elusen

Dydd Sadwrn 6 Awst**REGATA TRE-SAITH**

Ble: Tre-saith
Amser: 10.00 – 11.00am
Cyswllt: Pip Alexander
01239 811322
Costau: Am ddim

Dydd Iau, 11 Awst**GWYL AFON A BWYD
ABERTEIFI**

Ble: Castell a Phont,
Aberteifi
Amser: 11.00am – 5.00pm
Cyswllt: Matthew Newbold
01239 615554
Costau: Am ddim

Dydd Sadwrn 13 Awst**CARDIGAN BAY REGATTA**

Ble: Ceinewydd
Amser: 10.00am – 4.00pm
Cyswllt: Aileen Horton 01545
561019
Costau: Am ddim

Dydd Sul 14 Awst**MERLOD A CHOBIAU
ABERAERON**

Ble: Cae Sgwâr Aberaeron
Amser: 12 hanner dydd
Cyswllt: Clive Hoyles 01570
470714
Costau: £5 oedolion, plant am
ddim

Dydd Gwener 19 Awst**GWYL BEFAR A CHADI
ABERYSTWYTH**

Ble: Promenâd Aberystwyth
Amser: 10.00am – 4.00pm
Cyswllt: Cyngor Tref
Aberystwyth 01970
624761
Costau: Am ddim

Dydd Sadwrn 20 Awst**RASUS CYRYGLAU
CILGERRAN**

Ble: Cilgerran
Amser: 2pm
Cyswllt: Glen Jones 01239
614600
Costau: £1 oedolion, 50p plant

Saturday 9 July**TEIFI VALLEY SHOW**

Where: Brongest, Newcastle
Emlyn
Time: 10.00am – 5.00pm
Contact: Mrs. Louise Davies
01239 710151 day
01239 858958 eve
Costs: Adults £4, children £3
(under 16 yrs), parking £2

Sunday 10 July**CARDIGAN BAY
SEAFOOD FESTIVAL**

Where: Aberaeron Harbour
Time: 12.00am – 5.00pm
Costs: Free

Wednesday 27 July**CARDIGAN
AGRICULTURAL SHOW**

Where: Briscwm Fields, A487
North of Cardigan
Time: 9.00am – 5:30pm
Contact: Gill Jones
01239 615438
Costs: £5 adults, £3 OAP, £1
children (<15 yrs old)

Monday 1 August**BEACH DAY**

Where: Newport Parrog Beach
Time: 10.00am – 3.00pm
Contact: Richard Vaun
07977034985
Costs: Free

Thursday 4 August**ABERPORTH CARNIVAL**

Where: Aberporth
Time: 2.00 – 4.30pm
Contact: Jan Tucker
01239 810387
Costs: Donation for charity
welcomed

Saturday 6 August**TRESAITH REGATTA**

Where: Tresaith
Time: 10.00 – 11.00am
Contact: Pip Alexander 01239
811322
Costs: Free

Thursday 11 August**CARDIGAN RIVER AND
FOOD FESTIVAL**

Where: Castle and Bridge,
Cardigan
Time: 11.00am – 5.00pm
Contact: Matthew Newbold
01239 615554
Costs: Free

Saturday 13 August**CARDIGAN BAY
REGATTA**

Where: New Quay
Time: 10.00am – 4.00pm
Contact: Aileen Horton 01545
561019
Costs: Free

Sunday 14 August**ABERAERON PONIES
AND COBS**

Where: Aberaeron Square Field
Time: 12 noon
Contact: Clive Hoyles 01570
470714
Costs: £5 adults, Children free

Friday 19 August**ABERYSTWYTH PUNCH
AND JUDY FESTIVAL**

Where: Aberystwyth
promenade
Time: 10.00am – 4.00pm
Contact: Cyngor Tref
Aberystwyth Town
Council 01970 624761
Costs: Free

Saturday 20 August**CILGERRAN CORACLE
RACES**

Where: Cilgerran
Time: 2pm
Contact: Glen Jones 01239
614600
Costs: £1 child, 50p children

Cewch weld fersiwn diweddaraf yr amserlen ar
http://www.cardiganbaysac.org.uk/english/events_roadshow%2005.htm.
I gael rhagor o wybodaeth am Sioe Ffordd Ardal Gadwraeth
Arbennig Bae Ceredigion cysylltwch ag

Annalisa Bianchessi
Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion
DESH, Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron Ceredigion SA26 0PA
Ffôn: 01545 572139

E-bost: annalisab@ceredigion.gov.uk

An updated version of the schedule can be found on
http://www.cardiganbaysac.org.uk/englishevents_roadshow%2005.htm.
For more information about the Cardigan Bay SAC Roadshow please
contact

Annalisa Bianchessi
Cardigan Bay SAC Officer
DESH, Ceredigion County Council
Penmorfa, Aberaeron Ceredigion SA46 0PA
Tel: 01545 572139

E-mail: annalisab@ceredigion.gov.uk

